Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher yr 28ain o Fedi 2011 am 6.45yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Julia Jones, Y Dirprwy Faer y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Christoher Parish, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. David Williams, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Roy Davies
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau : Dim

Cof 157/ Medi /11 I gadarnhau'r trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Cyhoeddus arfaethedig, a gynhelir ar y 5ed o Hydref 2011 yn y Neuadd Ddinesig am 7.30yh.

Darllenodd y Clerc ohebiaeth oddi wrth y bobl ganlynol:

1. Simon Buckley yn beirniadu'r trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Cyhoeddus.
2. Tim Shaw yn beirniadu'r trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Cyhoeddus.
3. Richard Brown mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer y Cyfarfod Cyhoeddus.
4. Keith Towler yn gwrthod y gwahoddiad i fod yn Gadeirydd ar y Cyfarfod Cyhoeddus.

Yng ngoleuni'r ohebiaeth uchod, fe wnaeth y Cyngor ailystyried strwythur ei Gyfarfod Cyhoeddus arfaethedig.

1. Cynigodd y Cyng. Richard Wallace bod y Cyngor yn cadarnhau ei gytundeb i gynnal Cyfarfod Cyhoeddus ar y 5ed o Hydref, yn y Neuadd Ddinesig. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Cafwyd 9 pleidlais o blaid ac 1 yn erbyn. Cafodd y cynnig ei gario.
2. Cynigodd y Cyng. David Williams bod y gwahoddiad i drydydd siaradwr o blaid cais Sainsbury's i gael ei dynnu'n ôl. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Roy Davies. Cafwyd 9 pleidlais o blaid ac 1 yn erbyn. Cafodd y cynnig ei gario.
3. Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y cyfarfod yn agored i bawb a oedd yn dymuno mynychu ac na ddylid ei gyfyngu i drigolion Tref Llandeilo. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Cafwyd 6 phleidlais o blaid, gyda 4 yn ymatal. Cafodd y cynnig ei gario.
4. Cynigodd y Cyng. Dawn Wallace bod Sainsbury's yn rhoi'r cyflwyniad cyntaf, ac yna Save Llandeilo's Future. Byddai pob cyflwyniad yn para 15 munud. Yna, byddai'r cwestiynau a dderbyniwyd gan y Cyngor yn dilyn. Byddai'r cwestiynau yma'n cael eu dosbarthu i'r ddau barti ar ddydd Gwener y 30ain o Fedi. Byddai cyfnod o 30 munud yn cael ei neilltuo ar gyfer ateb y cwestiynau yma.
   Yn dilyn hyn, byddai'r siaradwyr yn cael eu gwahodd i adael y llwyfan ac i ymuno â'r gynulleidfa, os oeddent yn dymuno. Ar gyfer y 30 munud olaf, byddai'r Cadeirydd yn gwahodd aelodau o'r gynulleidfa i fynegi eu barnau personol, trwy annerch y Cadeirydd. Ni fyddai unrhyw gwestiynau'n cael eu derbyn oddi wrth y llawr. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. David Williams.

Cafwyd 7 pleidlais o blaid, gyda 3 yn ymatal.

5. Cytunwyd y byddai'r Maer yn ceisio cysylltu â phersonau addas ac y byddai'n dewis un, yn unol ag argaeledd, i ymddwyn fel cadeirydd annibynnol ar y cyfarfod. Roedd pawb o blaid.

Byddai'r Clerc yn hysbysu Sainsbury's a Save Llandeilo's Future ynglŷn â'r strwythur gosodedig.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.25yh.